

## GRIFFITH, JOHN (fl.1548-87), gwr o'r gyfraith sifil

**Enw:** John Griffith  
**Rhiant:** Margaret ferch John Wyn ap Meredith  
**Rhiant:** William Griffith  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** gwr o'r gyfraith sifil  
**Maes gweithgaredd:** Cyfraith; Gwasanaethau Cyhoeddus a Chymdeithasol, Gweinyddiaeth Sifil  
**Awdur:** Arthur Herbert Dodd

Mab (mae'n debyg) i **William Griffith** (bu farw 1587), Plas Mawr, Caernarfon, a Threfarthen, Llanidan, sir Fôn, mab hynaf ail briodas **Syr William Griffith** o'r Penrhyn. Margaret, merch **John Wyn ap Meredith** o Wydir, a modryb y **Syr John Wynn 1af**, oedd ei fam. Gwnaethpwyd ef yn gymrawd o Goleg All Souls, Rhydychen, yn 1548, cymerodd ei B.C.L. yn 1551 (18 Gorffennaf), a gradd doethur yn 1563 (7 Gorffennaf).

Yn 1559 (23 Chwefror) caniatodd y frenhines Elisabeth i **William Awbrey** drosglwyddo i Griffith ei gadair 'Regius' y gyfraith sifil yn Rhydychen. Cadwodd Griffith y swydd hon hyd 1566; o'r flwyddyn 1561 hyd 1564 yr oedd yn brifathro New Inn Hall yr un pryd. Ar 26 Chwefror 1564 fe'i derbyniwyd yn aelod o Doctors' Commons. Etholwyd ef yn aelod seneddol dros fwrdeisdref Caernarfon yn 1571 a gwasanaethodd fel siryf sir Gaernarfon yn 1582-3 a sir Fôn yn 1587.

Yr oedd ei frawd iau, WILLIAM GRIFFITH, LL.D., yn farnwr y Morlys dros Sir Gaernarfon ac yn aelod seneddol dros fwrdeisdref Caernarfon yn 1586. Y flwyddyn ddilynol bu'n gyfrifol am gychwyn yr ymchwil a lwyddodd ymhen ychydig i ddarganfod y twr o Babyddion a oedd yn cyfarfod yn ogof Rhiwledyn yn y Creuddyn a chanddynt eu gwasg argraffu eu hunain.

### Awdur

**Yr Athro Emeritus Arthur Herbert Dodd**, (1891 - 1975)

### Ffynonellau

J. E. Griffith, *Pedigrees of Anglesey and Carnarvonshire Families* (1914), 125, 184-5

Anthony Wood, *Athenae Oxonienses à€; to which are added The Fasti* (1813à€;20), i, 161

Rymer, *Foedera conventiones, litterÀ; et cujuscunque generis acta publica, inter reges AngliÀ; et alios quosuis imperatores, reges, pontifices, principes, vel communitates, ab ingressu Gulielmi I. in Angliam, A.D. 1066, ad nostra usque tempora habita aut tractata ex autographis, infra secretiores archivorum regionum thesaurarias, asservatis, aliisque summÀ; vetustatis instrumentis, ad historiam anglicanam spectantibus, fideliter exscripta* (1816-1830, 1869), xv, 505

W. R. Williams, *The parliamentary history of the principality of Wales, from the earliest times to the present day, 1541-1895*(Brecknock 1895), 65

*Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Gaernarfon*, 1946, 14

### Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q6236375

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

LGC  
NLW

LLYFRGEL  
THE NATION



Ysgrifeddiadau  
Llywodraeth Cymru  
Copied by  
Welsh Government